Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

CYMRU / WALES

Ar Osod / To Let

1 Stad Stacbwll, Ystagbwll, Sir Benfro/
1 Stackpole Courtyard, Stackpole, Pembrokeshire
SA71 5DE

£700 y mis calendr / per calendar month



© National Trust/Mike Henton

DISGRIFIAD

Wedi'i leoli o fewn i cwrt traddodiadol ar Stad Stacbwll, mae'r eiddo ddwy ystafell wely hwn wedi'w adnewyddu'n lawn ac manteisio Boeler biomas sy'n defnyddio pelenni pren. Mae gan yr eiddo ardd breifat ar wahân, lleoliad parcio ac yn ddi-ddodrefn ac ar gael i'w rhentu ar unwaith. Nid yw'r annedd hon yn addas ar gyfer anifeiliaid anwes. Felly, gofynnir i chi ystyried hyn yn ofalus cyn penderfynu a ydych yn dymuno bwrw ymlaen â'r contract meddiannaeth

DESCRIPTION

Set within a traditional courtyard on the Stackpole Estate, this two bedroomed property has been newly decorated and benefits from wood pellet biomass heating system. The property has a detached private garden, and allocated parking bay. This dwelling is not suitable for pets and therefore please bear this in mind before deciding whether or not to proceed with the occupation contract.


Lleoliad / Cyfarwyddiadau

O Benfro, cymerwch ffordd B4319 Castlemartin/Stacbwll/Bosherston a dilynwch y arwyddion brown am Ganolfan Sacvwllgan defnyddio cod post **SA71 5DE** neu
What3Words: stirs.grove.cherished


Location / Directions

From Pembroke take the B4319 Castlemartin/Stackpole/ Bosherston road and follow the brown signs for Stackpole Centre using the postcode **SA71 5DE** or
What3Words: stirs.grove.cherished

LLEOLIAD / LOCATION MAP



Cynllun llawr Eiddo / Property Floor plan



NO.1 STACKPOLE COURTYARD

Whilst every attempt has been made to ensure the accuracy of the floor plan contained here, measurements of doors, windows, rooms and any other items are approximate and no responsibility is taken for any error, omission, or mis-statement. This plan is for illustrative purposes only and should be used as such by any prospective purchaser. The services, systems and appliances shown have not been tested and no guarantee as to their operability or efficiency can be given
Made with Metropix ©2011

Mae'r cynllun hwn at ddibenion darluniadol yn unig.

This plan is for illustrative purposes only.

Ystafell Fyw – 5.5m x 3.3m
Ystafell fyw lawn cymeriad gyda lloriau pren traddodiadol, ffenestr sash fawr yn edrych dros y Cwrt, stôf goed Morso, rheiddiadur a goleuadau crog.

Ystafell Wely 1 – 5.5m x 3.2m
Ystafell wely gyfforddus â charped, gyda ffenestr sash draddodiadol fawr, cwpwrdd storio adeiledig, rheiddiadur, pwyntiau trydan niferus, goleuadau crog, a golygfeydd dros y gerddi cymunedol.

Ystafell Wely 2 – 5.5m x 3.3m
Mae'r ail ystafell wely yn mwynhau golygfeydd dros y gerddi cymunedol ac yn cynnwys ffenestr sash draddodiadol fawr, carped, rheiddiadur, goleuadau crog, ac amrywiaeth o bwyntiau trydan.

Cyntedd – 2.2m x 6.6m
Cyntedd croesawgar gyda llawr laminedig gwydn, dau olau crog, rheiddiadur, system canfod tân, a socedi trydan dwbl wedi'u lleoli'n gyfleus.

Ystafell Ymolchi – 2.5m x 3.5m
Ystafell ymolchi draddodiadol yn cynnwys bath, basn ymolchi a thoiled, ynghyd â chawod gornel ar wahân a chawod drydan. Mae nodweddion ychwanegol yn cynnwys rheiddiadur, golau bŵlhed, a ffenestr sash fawr sy'n darparu golau naturiol.

Cegin – 5.5m x 3.1m
Cegin lawn cymeriad gyda lloriau pren traddodiadol, pedair uned gegin wedi'u gosod ar y wal, a lleoedd pwrpasol ar gyfer popty trydan a pheiriant golchi. Mae'r ystafell yn elwa o ffenestr sash fawr gyda ffan echdynnu yn edrych dros y cwrt cymunedol a'r ardal barcio, pedwar soced trydan dwbl, boeler pelenni biomas Klover, a systemau canfod tân a charbon monocsid.

Lle Storio Ychwanegol
Lle storio ychwanegol fel y nodir ar y cynllun llawr, gyda dau bwynt mynediad i'r eiddo.

Tu Allan
Gardd breifat helaeth yn rhan o'r eiddo, wedi'i lleoli gyferbyn â mynedfa'r cwrt. Sylwer nad oes cyflenwad dŵr prif bibell i'r ardd; bydd angen i ddeiliad newydd y contract wneud ei drefniadau ei hun ar gyfer dyfrio, megis gosod casgen ddŵr glaw.

Living Room – 5.5m x 3.3m Characterful living room with traditional timber floorboards, a large sash window overlooking the Courtyard, Morso wood-burning stove, radiator, and pendant lighting.

Bedroom 1 – 5.5m x 3.2m
Comfortable carpeted bedroom featuring a large traditional sash window, built-in storage cupboard, radiator, ample electrical sockets, pendant lighting, and views over the communal gardens.

Bedroom 2 – 5.5m x 3.3m
Enjoys views over the communal gardens and features a large traditional sash window, fitted carpet, radiator, pendant lighting, and a range of electrical sockets

Hallway - 2.2m x 6.6m
Welcoming entrance hallway featuring durable laminate flooring, two pendant light fittings, a radiator, fire detection system, and conveniently placed double electrical sockets

Bathroom – 2.5m x 3.5m
Traditional bathroom comprising a bath, wash hand basin and WC, together with a separate corner shower cubicle and electric shower. Additional features include a radiator, bulkhead light fitting, and a large sash window providing natural light

Kitchen – 5.5m x 3.1m
Characterful kitchen featuring traditional timber floorboards, four wall-mounted kitchen units, and designated spaces for an electric cooker and washing machine. The room benefits from a large sash window with extractor fan overlooking the communal courtyard and parking area, four double electrical sockets, a Klover biomass pellet boiler, and fire and carbon monoxide detection systems

Additional storage space

As indicated on the floor plan, with two access points to the property

Outside
Generous private garden included with the property, located opposite the entrance to the courtyard. Please note that there is no mains water supply to the garden; the incoming contract holder will need to make their own arrangements for watering, such as installing a water butt.

Gwasanaethau

Boeler biomas sy'n defnyddio pelenni pren Trydan o'r prif gyflenwad, dŵr o'r prif gyflenwad a chyswllt carthffosiaeth tanc septig. Pwynt ffôn BT yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau gan BT.

Treth y Cyngor

Cyfrifoldeb y tenant fydd talu treth y cyngor ac unrhyw daliadau eraill, trethi neu asesiadau a all godi. Treth Cyngor Band D. Mae treth y Cyngor yn daladwy i'r Awdurdod Lleol (Cyngor Sir Benfro) ac ar gyfer 2026/2027 mae'r dreth yn £1344.00

Tystysgrif Perfformaid Ynni

Mae Tystysgrif Perfformiad Ynni ar gael cyn i'r Cytundeb ddechrau.

Energy performance certificate (EPC) – Find an energy certificate – GOV.UK

Services

Biomass Central heating system. Electricity from main supply. Mains water and mains sewerage. BT telephone point subject to any BT regulations.

Outgoings and Council Tax

The tenant is to pay Council Tax, and all other outgoings relating to the property. The property is in Band * for Council Tax and the standard charge for 2026/2027 payable to Pembrokeshire County Council is £1344.00

Energy Performance

An Energy Performance Certificate for this property will be provided before occupancy.

Energy performance certificate (EPC) – Find an energy certificate – GOV.UK

Y Cytundeb

Mae'r eiddo ar gael i'w osod yn ôl Cytundeb Meddianaeth Safonnol

Rhent

Gofynnir i'r Deilydd Contract dalu **£700** bob mis calendr. Mae'r rhent yn daladwy'n fisol ymlaen llaw drwy ddebyd uniongyrchol, gyda'r taliad cyntaf ar gychwyn y cytundeb.

Adolygiad Rhent

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn adolygu'r rhent bob blwyddyn ar y farchnad agored.

Yswiriant

Y landlord fydd yn gyfrifol am yswirio'r eiddo a'r darnau gosod a gosodiadau'r eiddo. Cyfrifoldeb y Deilydd Contract yw yswirio eu cynnwys personol.

Cyfrifoldebau Trwsio (Crynodeb)

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fydd yn gyfrifol am bob atgyweiriadau i'r strwythur, y tu allan i'r adeilad, y gosodiadau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ac addurniadau allanol. Bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd yn gwasanaethu'r cyfarpar.

Y Deilydd Contract fydd yn gyfrifol am atgyweiriadau mewnol ac addurniadau, trin yr ardd, ffensys.

Is-osod

Mae'r eiddo i'w gymryd fel preswylfa breifat sengl yn unig. Nid oes yna unrhyw hawl i drosglwyddo, is-osod na rhoi'r gorau i cyfan na rhan ohono.

Anifeiliaid Anwes

Ni chaniateir anifeiliaid anwes.

The Contract

The property is available to let under a Standard Occupation Contract

Rent

The prospective tenant is asked to pay **£700** per calendar month. The rent is to be payable monthly in advance by direct debit with the first payment being made on the commencement of the tenancy.

Rent reviews

The National Trust carries out rent reviews of the property every year to open market value.

Insurance

The National Trust will be responsible for insuring the building but the Contract Holder will be responsible for insuring the contents.

Repairing Responsibilities (Summary)

The National Trust will be responsible for repairs to the structure, exterior of the building, installations for the supply of services, external decoration. The National Trust will also be responsible for servicing the appliances.

The Contract Holder will be responsible for internal repairs and decoration, garden, fences, drives.

Sub Letting

The property shall be occupied as a single private residence only. There will be no right to assign, sub-let or part with possession for the whole or any part of the premises.

Pets

No pets are not permitted.

Ymweld â'r Eiddo

Fe gwahoddir yr rhai sydd wedi cyrraedd y rhestr fer i ymweld a'r eiddo, dyddiad i'w gadarnhau wedi'r dyddiad cau i ymgeiswyr. **Dyddiad cau ar gyfer ymgeisio :- 12yp, 27/11/2026**

Cyswllt

Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Swyddfa Stad Ysbyty, Dinas, Betws y Coed, Conwy, LL24 0HF. wa.tenantenquiries@nationaltrust.org.uk

Gwiriad Credyd

Bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau'r Ffurflen Cyfeiriad Credyd Cais am Gytundeb. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data. Dim ond yr ymgeisydd llwyddiannus fydd yn destun y Gwiriad Credyd gan yr Asiantaeth Cyfeirio Credyd.

GDPR

Mae ein Polisi Preifatrwydd llawn ar gael ar-lein yn www.nationaltrust.org.uk/features/privacy-

Fel Deilydd Contract i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i gyflawni ein contract gyda chi. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, anfon anfonebau rhent, a gohebiaeth rhwng tenant a landlord atoch, a chysylltu â chi gyda gwybodaeth am faterion neu weithgareddau sy'n ymwneud â'ch prydles. Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch manylion i drydydd parti ac eithrio lle rydych wedi darparu caniatâd penodol neu lle mae angen i ni wneud hynny er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol neu landlord, er enghraifft os oes angen i ni anfon eich cyfeiriad neu'ch manylion cyswllt i gontractwr cynnal a chadw fel y gallant wneud atgyweiriadau, neu lle mae'n ofynnol i ni gysylltu â'r adran Dreth Gyngor neu gwmnïau Cyfleustodau ar ddechrau neu ddiwedd Tenantiaeth.

Am ragor o wybodaeth am fod yn denant i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ewch i'n gwefan www.nationaltrust.org.uk/tenants

Noder:

Darperir y manylion hyn er cyfarwyddyd yn unig. Cânt eu paratoi a'u dosbarthu'n ddidwyll gyda'r bwriad o roi crynodeb teg o'r meddiant. Ni ddylid dibynnu ar unrhyw ddisgrifiad neu wybodaeth a roddir fel datganiad neu sylwadau ffeithiol. Mae'r lluniau'n dangos rhannau arbennig o'r meddiant yn unig ar yr adeg pan gawsant eu tynnu. Bras amcanion yn unig yw'r arwynebeddau, mesuriadau neu bellterau a roddir. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gynnig a dderbynnir ar gyfer yr eiddo hwn.

Viewings

Viewings strictly by appointment only to those who have reached our shortlist. Date of which to be confirmed after the closing date for applications **is 12pm on 27/11/2026.**

Contact

Letting Department, Ysbyty Estate Office, Dinas, Betws y Coed, Conwy, LL24 0HF
wa.tenantenquiries@nationaltrust.org.uk

Credit Check

The National Trust will request all interested parties to complete the Enclosed/attached Credit Reference Occupation Contract Application Form. All information contained will be handled in compliance with the Data Protection Act. Only the successful applicant will be subject to the Credit Check by the Credit Referencing Agency.

GDPR

Our full Privacy Policy can be found online at
https://www.nationaltrust.org.uk/features/privacy-policy

As a Tenant of the National Trust, we will use your personal information to fulfil our contract with you. This may include, but is not limited to, sending you rental invoices, tenant and landlord correspondence, and contacting you with information about issues or activities relating to your lease. We will not pass your details to third parties except where you have provided explicit consent or where we need to do so in order to fulfil our legal or landlord responsibilities, for example if we need to send your address or contact details to a maintenance contractor so they can carry out repairs, or where we are required to liaise with Council Tax departments or Utilities companies at the beginning or end of a Tenancy.

For further information about being a National Trust tenant, you can visit us online at www.nationaltrust.org.uk/tenants

Note:

These particulars are issued for guidance purposes only. They are prepared and issued in good faith and are intended to give a fair summary of the property. Any description or information given should not be relied upon as a statement or representation of fact. Photographs show only certain parts of the property at the time they were taken. Any areas, measurements or distances given are only approximate. Prospective applicants must satisfy themselves by inspection as to these and other relevant details. The National Trust reserves the right to not have to accept any offer received for this property.

Deiliaid Contract yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Fel un o Ddeiliaid Contract yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, byddwch yn cael 'pas tenant' am ddim trwy gydol hyd eich Cytundeb. Mae hyn yn golygu y byddwch chi, eich plant (o dan 18) ac un oedolyn arall yn cael ymweld â'r lleoedd rydym yn gofalu amdanynt, am ddim. Byddwch hefyd yn cael Llawlyfr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i'ch helpu i gynllunio'ch diwrnodau allan, copi o Gylchgrawn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a thrwydded barcio am ddim pan ymwelwch â ni.

Mae'n bwysig gwybod bod yr incwm rydym yn ei wneud o'r eiddo rydym yn osod yn chwarae rhan hanfodol wrth ariannu ein gwaith cadwraeth. Mae'n amddiffyn natur, harddwch a hanes ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Rydym yn awyddus i adeiladu perthynas hirhoedlog rhwng y tenant a'r landlord sy'n dod â sefydlogrwydd a hirhoedledd i'ch cynlluniau ni a'n cynlluniau ni. Rydym yn gwybod bod gan denantiaid ddisgwyliadau uchel o'r eiddo maent yn rhentu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ond rydym hefyd yn disgwyl iddynt ofalu am yr eiddo fel petaem ni'n gofalu amdano. Mae bod yn un o denantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn golygu eich bod yn gofalu am ddarn o hanes. Mae'n golygu eich bod yn geidwad adeilad. Yn ogystal, mae'n golygu helpu i'w amddiffyn ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

National Trust Contract Holders

As a Contract Holder of the National Trust, you'll receive a free 'tenant pass' throughout the duration of your Occupation Contract. This means that you, your children (under 18) and one other adult can visit the places we care for, for free. You'll also receive a National Trust Handbook to help you plan your days out, a copy of the National Trust Magazine and a free parking permit for when you visit us.

It's important to know that the income we make from the places we let plays an essential role in funding our conservation work. It protects nature, beauty and history for generations to come.

We're keen to build long-lasting landlord-tenant relationships that bring stability and longevity to your plans and ours. We know that tenants have high expectations of their National Trust rental property, but we also expect them to look after the property as if we were looking after it. That's because being a National Trust tenant means looking after a piece of history. It means being a custodian of a building. And it means helping to protect it for the next generation.

Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019 – Trefn Taliadau a Ganiateir

Taliad a Ganiateir	Nodiadau
Y Rhent	Mae'r rhent y cytunwyd arno ar gyfer yr eiddo yn daliad a ganiateir o dan y Ddeddf ac mae'n daladwy yn unol â thelerau'r Contract Meddiannaeth.
Blaendal Diogelwch a Blaendal Cadw	Er bod derbyn blaendal yn daliad a ganiateir o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) 2019, am resymau sefydliadol, **nid ydym** ar hyn o bryd yn cymryd blaendaliadau diogelwch na blaendaliadau cadw ar gyfer ein heiddo preswyl.
Taliadau Diofyn	Mae taliad sy'n ddyledus os bydd Deiliad y Contract yn methu â chydymffurfio â'r Contract Meddiannaeth yn daliad a ganiateir, lle mae'r disgrifiad o'r methiant wedi'i bennu mewn rheoliadau ac yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau perthnasol. Er enghraifft:- • Llog ar daliadau rhent hwyr. • Costau sy'n ymwneud â newid, ychwanegu at neu dynnu cloeon sy'n darparu mynediad i'r annedd (o ganlyniad i dorri'r Contract Meddiannaeth). • Costau amnewid allwedd neu ddyfais ddiogelwch sy'n darparu mynediad i'r annedd (o ganlyniad i dorri'r Contract Meddiannaeth).
Treth Gyngor	Mae taliad y mae'n ofynnol i Ddeiliad y Contract ei wneud i awdurdod bilio mewn perthynas â Threth Gyngor yn daliad a ganiateir. Er bod sefyllfaoedd o'r fath yn anghyffredin, o bryd i'w gilydd efallai y bydd angen i ni dalu'r costau hyn a'u hailgodi ar y Deiliad/Deiliaid Contract, lle bo'n briodol.
Cyfleustodau (Trydan, Nwy a Thanwyddau Eraill, Dŵr neu Garthffosiaeth)	Bydd y Deiliad/Deiliaid Contract yn gyfrifol am dalu costau'r cyfleustodau, ac mae'r costau hyn yn daliadau a ganiateir. Lle mae hyn yn rhan o'r denantiaeth ac wedi'i nodi yn y Contract Meddiannaeth, efallai y byddwn yn ailgodi cost cyflenwad cyfleustodau i eiddo preswyl, gan gynnwys cyfran gymesur unrhyw daliadau sefydlog a TAW lle bo'n briodol. Lle nad yw eiddo wedi'i gysylltu â'r brif system ddraenio, efallai y byddwn yn ailgodi costau cymesur gwagio'r tanc septig ar y Deiliad/Deiliaid Contract. Lle nad yw eiddo wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwad dŵr ac yn derbyn dŵr o gyflenwad preifat a gynhelir gennym ni, efallai y byddwn yn ailgodi costau cymesur cynnal a chadw a gwasanaethu'r offer hidlo sy'n cyflenwi dŵr i'r eiddo.
Trwydded Deledu	Mae taliad i'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) mewn perthynas â Thrwydded Deledu yn daliad a ganiateir, a bydd Deiliad/Deiliaid y Contract yn gyfrifol am dalu am eu Trwydded Deledu eu hunain.
Gwasanaethau Cyfathrebu	Bydd Deiliad/Deiliaid y Contract yn gyfrifol am dalu costau eu gwasanaethau cyfathrebu eu hunain, megis telathrebu a band eang. Er enghraifft, byddant yn gyfrifol am dalu am eu llinell ffôn. Mae ailgodi costau gwasanaethau cyfathrebu megis ffôn a band eang yn daliad a ganiateir. Er bod sefyllfaoedd o'r fath yn anghyffredin, efallai y byddwn yn talu'r costau hyn a'u hailgodi ar y Deiliad/Deiliaid Contract lle bo'n briodol, gan gynnwys: • Ffôn • Y rhyngrwyd • Teledu cebl • Teledu lloeren

Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019 - Permitted Payments Schedule

Permitted Payment	Notes
The Rent	The agreed rent for the property is a permitted payment within the Act and is payable as per the terms of the Contract.
Security Deposit and Holding Deposit	Whilst the receipt of a deposit is a permitted payment under the Renting Homes (Fees etc.) (Wales) Act 2019, for organisational reasons, *we do not* currently take security or holding deposits for our residential lettings.
Default Payments	A payment to be made in the event of a default by the Contract Holder is a permitted payment, where the description of default is specified by regulations and will be subject to restrictions that apply to any prescribed limits, for example;- • Interest on late payment of Rent • Costs relating to changing, adding to or removing locks that give access to the dwelling (as a result of a breach of the Occupation Contract) • Replacing a key or security device that gives access to the dwelling (as a result of a breach of the Occupation Contract)
Council Tax	A payment that a Contract Holder is required to make to a billing authority in respect of council tax is a permitted payment. Although these situations are uncommon, we may occasionally need to pay these and recharge these costs to Contract Holder/s where appropriate.
Utilities (Electricity, Gas and Other Fuels, Water or Sewage)	Contract Holder/s will be responsible for the payment of Utilities, the costs of utilities is a permitted payment. Where forming part of the letting and as set out in the Occupation Contract, we may recharge a utility supply to a residential property, including the proportional element of any standing charges and VAT if appropriate. Where properties are not connected to mains drainage, we may recharge the proportional costs of emptying the septic tank to the Contract Holder/s. Where a property is not on mains water and is fed by a private water supply which we maintain, we may recharge the proportionate costs of the maintenance and servicing of the filtration equipment which supplies water to the property.
Television Licence	A payment to the British Broadcasting Corporation in respect of a TV Licence is a permitted payment and Contract Holders will be responsible for the payment of their own TV Licence.
Communication Service	Contract Holder/s will be responsible for the payment of their communication service costs such as Telecoms and Broadband. For example, Contract Holders will be responsible for the payment of their landline.

	The sub-recharging of communication costs such as telephone and broadband are a permitted payment. Although these situations are uncommon, we may pay and recharge these costs to Contract Holders where appropriate.